


# Cwblhau MFA yn defnyddio ap Authenticator MS


Cwblhau MFA yn defnyddio'r ap Authenticator MS a osodwyd yn flaenorol a'i sefydlu ar eich ffôn clyfar.

## Derbyn hysbysiad


1. Wrth geisio defnyddio Microsoft Office 365, naill ai drwy borwr gwe, ap symudol, neu gymhwysiad bwrdd gwaith, efallai y bydd gofyn i chi gwblhau MFA cyn cael mynediad at eich cyfrif.
2. Cyn yr ysgogiad MFA, efallai y gofynnir i chi fewngofnodi i Office365. Os felly, gwnewch hynny yn ôl yr arfer gan ddefnyddio eich cyfeiriad ebost a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd.
3. Cewch eich hysbysu bod angen cymeradwyaeth bellach ar yr ymgais hwn i fewngofnodi drwy MFA, a bod Microsoft wedi anfon hysbysiad at y ffôn clyfar rydych chi wedi gosod ap Microsoft Authenticator arno'n flaenorol.



4. Yna dylai eich ffôn clyfar ddangos hysbysiad pop-up (neu neges ar y sgrin clo) gan ap Microsoft Authenticator, yn gofyn i chi **Gymeradwyo neu Wrthod** yr ymgais i fewngofnodi.




5. Os yw clo ap Microsoft Authenticator ar waith, bydd angen i chi roi cod datgloi eich ffôn clyfar, neu fiometrigr (fel ôl bys neu adnabod wyneb) cyn i'ch ymateb gael ei dderbyn.
6. Os na allwch chi ymateb i'r hysbysiad yn amserol am ryw reswm, cewch gyfle arall drwy glicio **Send another request to my Microsoft Authenticator app.**



## Cymeradwyo neu wrthod

### Cymeradwyo


1. Mae cymeradwyo ymgais i fewngofnodi mor syml â thapio'r botwm **Approve** ar yr hysbysiad pop-up.




2. Os yw'r hysbysiad pop-up wedi diflannu, agorwch ap Microsoft Authenticator ar eich ffôn clyfar, a dylai ddangos yr ysgogiad eto.
3. Unwaith y byddwch wedi tapio **Approve**, dylai'r hysbysiad pop-up ddiflannu o'ch ffôn clyfar, a dylai'r neges **Approve sign-in** ddiflannu o'r porwr gwe, yr ap symudol, neu'r rhaglen bwrdd gwaith oeddech yn ei defnyddio – gan roi mynediad i chi at eich cyfrif Office 365 fel y bwriadwyd.
  1. Noder: Os ydych chi'n derbyn hysbysiad MFA i gadarnhau mewngofnodi, ond nid chi sy'n mewngofnodi, mae'n bosibl fod rhywun yn ceisio defnyddio eich cyfrif yn anghyfreithlon. Peidiwch â chymeradwyo'r mewngofnodi, bydd hyn yn sicrhau bod eich cyfrif yn dal i fod yn ddiogel.
  2. Os ydych yn derbyn sawl hysbysiad MFA, ond nid chi sy'n ceisio mewngofnodi, gall olygu bod rhywun yn ceisio hacio'ch cyfrif. Yn y sefyllfa hon, rhwch wybod i'r [Ddesg Gwasanaeth TG](#) fydd yn ymchwilio.

### Gwrthod

1. Os nad chi sy'n ceisio mewngofnodi, Gwrthodwch yr ymgais i fewngofnodi i gadw'ch cyfrif yn ddiogel. Mae gwrthod yr ymgais i fewngofnodi mor syml â thapio'r botwm **Deny** ar yr hysbysiad pop-up.




2. Os yw'r hysbysiad pop-up wedi diflannu, agorwch ap Microsoft Authenticator ar eich ffôn clyfar, a dylai ddangos yr ysgogiad eto.
3. Unwaith y byddwch wedi tapio **Deny**, bydd yr hysbysiad pop-up ar eich ffôn clyfar yn cael ei ddisodli gan hysbysiad pop-up newydd yn gofyn i chi a ydych am Hysbysu am Dwyll. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae'n ddigon i dapio Deny.




Noder: Os ydych yn derbyn sawl hysbysiad dilysu aml-ffactor, ond nid chi sy'n ceisio mewngofnodi, gall olygu bod rhywun yn ceisio hacio'ch cyfrif. Yn y sefyllfa hon, rydym yn eich cyngori i naill ai "Roi Gwybod am Dwyll" neu [gysylltu â'r Ddesg Gwasanaeth TG](#) a fydd yn ymchwilio i'r mater.

4. Bydd y neges Approve sign-in ar y porwr gwe, yr ap symudol, neu'r rhaglen bwrdd gwaith yn oeddech yn ei defnyddio yn diweddarau i nodi bod MFA wedi'i wrthod




## Dewis dull arall

1. s gofynnir i chi gwblhau MFA yn defnyddio'ch dull diofyn, ond eich bod chi am ddefnyddio'r ap Microsoft Authenticator rydych wedi'i osod yn flaenorol, gallwch glicio **Sign in another way**. Neu cliciwch ar y saeth sy'n pwyntio i'r chwith, sydd yr ochr chwith i'ch cyfeiriad e-bost



2. Yna cewch set o opsiynau ar sut i gwblhau MFA. Bydd yr union opsiynau'n dibynnu ar ba dulliau MFA rydych wedi'u ffurfweddu o'r blaen. **Pwysig: Argymhellir yn gryf eich bod yn sefydlu sawl dull o gwblhau MFA i sicrhau y gallwch barhau i gael mynediad at eich cyfrif os bydd anhawster gydag un o'r dulliau.**




3. I ddefnyddio ap Microsoft Authenticator, cliciwch **Approve a request on my Microsoft Authenticator app**, yna gallwch gwblhau MFA fel y disgrifir gan ddechrau ar **Approving** ar y tudalen hon.


## Defnyddio codau (gan gynnwys all-lein)

1. Os byddwch yn dod ar draws problem wrth gyflawni MFA yn defnyddio hysbysiadau ap Microsoft Authenticator, gan gynnwys os nad oes gennych gysylltiad â'r rhyngwyd, gallwch ddewis defnyddio cod dilysu o'r ap yn lle hynny. Os ydych wedi dod ar draws problem, cliciwch Enter a security code, neu fel arall cliciwch ar Sign in another way.

Neu cliciwch ar y saeth sy'n pwyntio i'r chwith, sydd yr ochr chwith i'ch cyfeiriad e-bost




2. Yna cewch set o opsiynau ar sut i gwblhau MFA. Bydd yr union opsiynau'n dibynnu ar ba dulliau MFA rydych wedi'u ffurfweddu o'r blaen. Cliciwch Use a verification code from my mobile ap



3. Ar eich ffôn clyfar, agorwch ap Microsoft Authenticator, a thapio i mewn i'ch cyfrif Prifysgol Caerdydd. Fe welwch god chwe digid o'r enw One-time password code ar y sgrin sy'n cael ei newid bob 30 eiliad. Gwnewch nodyn o'r cod a ddangosir.



4. Nodwch y cod chwe digid yn y neges pop-up ar y porwr gwe, yr ap symudol, neu'r rhaglen bwrdd gwaith roeddech yn ei defnyddio ac a ysgogodd MFA. Yna cliciwch Verify.



Mae angen i chi roi'r cod a chlicio Verify cyn i'r 30 eiliad a ddangosir ar ap Microsoft Authenticator ddod i ben, neu bydd y cod yn annilys, a bydd angen i chi roi cynnig arall arni


Bydd y codau cyfrinair untro chwe digid hyn a gynhrychir gan ap Microsoft Authenticator ar eich ffôn clyfar yn gweithio'n gywir hyd yn oed os nad oes gan eich ffôn clyfar gysylltiad data gweithredol ar y pryd. Felly, maen nhw'n ffordd ddefnyddiol i ddefnyddio ap Microsoft Authenticator all-lein.

5. Dylai'r neges "Enter code" ddiflannu o'r porwr gwe, yr ap symudol, neu'r rhaglen bwrdd gwaith roeddech yn ei defnyddio – gan roi mynediad i chi at eich cyfrif Office 365 yn ôl y bwriad.


## Gosod fel dull diofyn

Os ydych wedi gosod dull MFA arall (fel galwad ffôn awtomataidd neu gais dilysydd gwahanol) fel dull diofyn, gallwch newid hyn fel bod ap Microsoft Authenticator yn ddiiofyn.


1. I ddechrau'r broses, defnyddiwch borwr gwe i lywio i <https://aka.ms/mfasetup>
2. Cewch eich cymell i chi fewngofnodi i Office365 gan ddefnyddio eich cyfeiriad ebost a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd. Efallai y cewch eich herio i gwblhau MFA gan ddefnyddio un o'r dulliau rydych eisoes wedi'i sefydlu.
3. Ar ôl mewngofnodi'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich cymryd i dudalen **My Sign-ins** ble gallwch adolygu'r dulliau MFA sydd eisoes wedi'u sefydlu. Nesaf at **Default sign-in method**: cliciwch **Change**.



4. Dewiswch **Microsoft Authenticator – notification** o'r rhestr o ddepsiadau.




5. Bydd y dull mewngofnodi diofyn nawr yn dangos **Microsoft Authenticator – notification**.




## Ailenwi a Dileu'r Cyfrif

1. Os ydych am ailenwi cofnod eich cyfrif o fewn ap Microsoft Authenticator, agorwch yr ap ar eich ffôn clyfar, tapiwch i mewn i'ch cyfrif Prifysgol Caerdydd, ac yna tapiwch yr **icon cog** yng nghornel dde uchaf y sgrin.



2. Tapiwch **Account Name** i roi disgrifiad newydd o'r ffordd y bydd yr ap yn cyfeirio at y cyfrif. Sylwch fod hyn yn effeithio ar sut mae ap Microsoft Authenticator yn rhestru'r cyfrif hwn ar eich ffôn clyfar yn unig.




3. Os oes angen i chi ddileu'r cyfrif hwn o ap Microsoft Authenticator yn gyfan gwbl (er enghraifft oherwydd bod angen i chi ei osod eto ar y ffôn clyfar hwn neu ffôn clyfar gwahanol) tapiwch **Remove account**. Os ydych yn deall goblygiadau parhau (gweler y nodyn isod), ac yn hapus i fwrw ymlaen, tapiwch fel bo'n briodol i gadarnhau

## Gadael mewngofnodi ffôn

**Pwysig: Nid yw mewngofnodi ffôn wedi'i ffurfweddu a'i alluogi ym Mhrifysgol Caerdydd. Os byddwch yn gweithredu'r swyddogaeth hon yn ddamweiniol, bydd yn newid eich profiad MFA, ond ni fydd yn gweithio'n gywir a bydd yn arwain at wallau.**

1. Os bydd eich MFA yn gofyn i chi ddefnyddio rhif dau ddigid cyfatebol ar ap Microsoft Authenticator, neu os byddwch yn derbyn neges gwall sy'n nodi bod polisi eich cwmni yn mynnu eich bod yn defnyddio dull gwahanol i fewngofnodi, yna bydd angen i chi ddadactifadu mewngofnodi Ffôn.





2. Ar eich ffôn clyfar, agorwch ap Microsoft Authenticator, a thapio i mewn i'ch cyfrif Prifysgol Caerdydd. Yna tapiwch **Disable phone sign-in** a **confirm**.
3. Dylai'r ap ddangos **Enable phone sign-in** nawr, sy'n nodi bod mewngofnodi ffôn wedi'i analluogi'n llwyddiannus.

